

*“Helpu plant sy’n dal yn dioddef yr effeithiau yn sgil y
Ddamwain Niwclear yn Chernobyl”*



Ar Ebrill y 18fed, bu i Gerrie Bayley gynnig cyflwyniad gyda sioe sleidiau i Sefydliad y Merched, Dolwyddelan. Roedd y cyfarfod yn Ystafell Gwyddelan y tu ôl i'r ysgol gan fod yna daflunydd a sgrîn fawr yno. Erbyn hyn mae yna drydedd genhedlaeth yn ardal Chernobyl lle mae eu bywydau wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan y trychineb gorsaf bŵer 30 mlynedd yn ôl.

Ychydig iawn iawn o gefnogaeth gan y Llywodraeth mae'r rheiny sy'n byw yn yr ardal yn ei dderbyn. Hefyd, mae'r strwythurau, adeiladau a chyfleusterau oedd unwaith yn fodern 30 mlynedd yn ôl yn adfeilion ac yn annefnyddadwy – doedd gan yr ysbyty lleol ddim stethosgop hyd yn oed. Yn ogystal, oherwydd bu i system plymio'r ysgol dorri blynyddoedd maith yn ôl, mae'n rhaid i bawb yno ddefnyddio sied y tu allan gyda thwll yn y ddaear – mae'n andros o fudr!

Yn dilyn y sgwrs, bu i Sefydliad y Merched wneud cyfraniad tuag at CCL yn ogystal a phrynu cardiau a threfnu gydag Ali i anfon llyfrau a ddewiswyd gan CCL. Bu i Fenter Siabod wneud cyfraniad hefyd, a bu inni ganfod y bydd y swm yn mynd tuag at adfer y tai bach yn Ysgol Bigun.

Mae bywyd yn Chernobyl yn fywyd 'Trydydd Byd' ar y gorau. Maen nhw ond yn medru bwyta'r hynny maen nhw'n ei dyfu ar y tir ymbelydrol a llygredig (pwmpenni gan fwyaf) a phwy a wŷr beth ydy'r effeithiau hirdymor posib yn sgil eu bwyta.

I wybod mwy am Chernobyl Children's Lifeline a sut mae modd ichi helpu, cymrwch olwg ar eu tudalen Facebook . . .

Chernobyl Children's Lifeline Gogledd Cymru